Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# ADDYSGWYR CYMRU EDUCATORS WALES

## Pecyn Cymorth i Bartneriaid 2022

Educators Wales Partner Toolkit 2022

01

# **Beth yw Addysgwyr Cymru?**

## What is Educators Wales?

# BETH YW ADDYSGWYR CYMRU?

Mae **Addysgwyr Cymru**'n wasanaeth di-dâl sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac sydd wedi'i ddatblygu gan Gyngor y Gweithlu Addysg i hyrwyddo gyrfaoedd yn y proffesiynau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae wedi'i ddatblygu hefyd i helpu darparwyr addysg i ganfod y staff sydd eu hangen arnynt yn gyflym, gan arbed amser ac arian ar recriwtio, sy'n golygu bod ein dysgwyr yma yng Nghymru hefyd yn elwa. Mae'r porth ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer ysgolion, colegau, dysgu seiliedig ar waith, gwaith ieuenctid a dysgu i oedolion.

# WHAT IS EDUCATORS WALES?

**Educators Wales** is a free service funded by Welsh Government and developed by the Education Workforce Council to promote careers in the education and training professions in Wales.

It is also designed to help education providers find the staff they need quickly, saving time and money on recruitment, which ultimately benefits our learners here in Wales too. The portal currently caters for schools, colleges, work-based learning, youth work and adult learning.

02

# Y pecyn cymorth hwn

## This toolkit

# Y PECYN CYMORTH HWN

Mewn ymateb i adborth a gafwyd gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant am y pwysau ychwanegol o ran staffio sydd wedi deillio o'r pandemig, rydym wrthi ar hyn o bryd yn cynnal ymgyrch gyfathrebu a marchnata genedlaethol i godi ymwybyddiaeth o **Addysgwyr Cymru** a buddiannau defnyddio'r platfform.

Y nod yw codi ymwybyddiaeth o **Addysgwyr Cymru** ymhlith y cyhoedd ac i roi cyhoeddusrwydd i'r porth fel siop un stop i ganfod cyfleoedd gwaith ac i ddysgu mwy am yrfaoedd a chyfleoedd hyfforddi yn y sector addysg a hyfforddiant.

# THIS TOOLKIT

In response to feedback about the additional staffing pressures resulting from the pandemic from education and training providers, we're currently running a nationwide communications and marketing campaign to raise awareness of **Educators Wales** and the benefits of using the platform.

The aim of the campaign is to raise awareness amongst the public of **Educators Wales** and to publicise the portal as a one-stop-shop for finding job opportunities and learning more about the career and training opportunities in the education and training sector.

# Yr hyn rydym ei angen gennych chi

## What we need from you

# YR HYN RYDYM EI ANGEN GENNYCH CHI

I helpu i ledaenu'r neges, rydym yn gofyn i sefydliadau ar hyd a lled Cymru hyrwyddo'r ymgyrch drwy rannu gwybodaeth am Addysgwyr Cymru ar eu sianelau. Fel rhan o'r pecyn cymorth hwn mae cynnwys parod y gallwch ei gyhoeddi ar eich gwefan, ei anfon at y cysylltiadau yn eich cronfa ddata e-bost a'i gyhoeddi ar gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â negeseuon am ein hymgyrch i'ch helpu i baratoi eich cynnwys eich hun neu i ateb unrhyw gwestiynau am y platfform.

Gyda'ch help chi, mi allwn wneud pethau'n haws i ysgolion, colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, gwaith ieuenctid a dysgu i oedolion sy'n profi prinder staff i ddod o hyd i bobl addas i ymuno â'u timau. Bydd dod o hyd i'r bobl gywir o fudd i ddysgwyr ledled Cymru hefyd, a fydd mewn gwell sefyllfa i fanteisio ar addysg o safon uchel gydag addysgwyr angerddol a brwdfrydig.

# WHAT WE NEED FROM YOU

To help get the word out, we're asking organisations across Wales to support our campaign by sharing information about Educators Wales on their channels. This toolkit contains ready-made content for you to include on your website, send out to your email database and post on your social media channels, as well as key messages from our campaign to help you prepare your own content or answer any questions about the platform.

With your help, we can make it easier for schools, colleges, work-based learning, youth work and adult learning providers who are experiencing staffing shortages to find suitable people to join their teams. Finding the right people for these jobs will ultimately benefit learners across Wales too, who will be better able to access a quality education with educators who are passionate and engaged.

# Sut y gallwn ni eich helpu chi

## How we can help you

# SUT Y GALLWN NI EICH HELPU CHI

Ers ei lansio yn 2021, mae darparwyr addysg a hyfforddiant ar bob lefel wedi bod yn hysbysebu swyddi gwag ac wedi bod yn defnyddio cronfa dalent y porth i ddod o hyd i ymgeiswyr addas i ymuno â'u timau. Ond, os yw'r porth am gael yr effaith fwyaf bosibl, rydym am weld darparwyr addysg a hyfforddiant o bob rhan o Gymru'n dechrau defnyddio ac elwa ar y platfform.

Mae croeso i chi, ac yn wir rydym yn eich annog, i lwytho eich swyddi gwag ar y safle ac i edrych ar CV yr ymgeiswyr sydd wedi rhannu eu profiad ag **Addysgwyr Cymru.** I ddysgu mwy am rannu eich swyddi gwag, ewch i'n gwefan neu os hoffech gael rhagor o gymorth neu wybodaeth cysylltwch â thîm **Addysgwyr Cymru** ar **gwybodaeth@addysgwyr.cymru.**

# HOW WE CAN HELP YOU

Since its launch in 2021, education and training providers at all levels have advertised vacancies and used the portal's talent pool to find suitable candidates to join their teams. But, for the portal to have the biggest impact, we want all education and training providers across Wales to start using and benefiting from the platform.

You are welcome and encouraged to upload all your job vacancies to the site and to explore the CVs of candidates who have shared their experience with **Educators Wales.** To find out more about sharing your job vacancies visit our website or for further support or information contact the **Educators Wales** team on **information@educators.wales.**

05

# Prif negeseuon ein hymgyrch

## Key messages for our campaign

# PRIF NEGESEUON EIN HYMGYRCH

**Mi welwch restr isod o brif negeseuon ein hymgyrch. Mae croeso i chi ei defnyddio i greu eich cynnwys eich hun i gyfeirio at y platfform, neu i ateb unrhyw gwestiynau a ofynnir i chi.**

- Mae Addysgwyr Cymru'n wasanaeth di-dâl sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac sydd wedi'i ddatblygu gan Gyngor y Gweithlu Addysg i hyrwyddo gyrfaoedd yn y proffesiynau addysg yng Nghymru.
- Lansiodd Llywodraeth Cymru Borth Addysgwyr Cymru yn 2021 fel safle paru swyddi hyfforddiant a datblygu gyrfaoedd, sydd ar gael i'w defnyddio am ddim i'r sector addysg a hyfforddiant ledled Cymru.
- Mae Addysgwyr Cymru'n siop un stop i ddod o hyd i gyfleoedd am swyddi ac i gael gwybodaeth am opsiynau gyrfaol neu ddatblygiad proffesiynol yn y sector addysg a hyfforddiant.
- Ar hyn o bryd mae Addysgwyr Cymru'n gweithio â phob grŵp oedran mewn ysgolion, colegau addysg bellach, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, darparwyr gwasanaethau gwaith ieuenctid a darparwyr addysg i oedolion.
- Mae ystod eang o rolau gyda darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru ar gael ar wefan Addysgwyr Cymru.
- Gall gyrfa mewn addysg a hyfforddiant fod yn un gwerth chweil a boddhaus, ac mae'n cynnig cyfleoedd rhagorol i dyfu a datblygu'n bersonol.
- Gall darparwyr addysg a hyfforddiant hysbysebu eu swyddi gwag a gwahodd ceisiadau drwy'r porth neu eu cyfeirio drwy eu gwefannau eu hunain, yn ogystal â phori drwy'r cronfeydd talent i ddod o hyd i ymgeiswyr addas a'u gwahodd am gyfweliad.
- Mae Addysgwyr Cymru'n gweithio i helpu darparwyr i ddod o hyd i'r staff sydd eu hangen arnynt mewn ffordd effeithiol a fydd yn arbed costau recriwtio, ac a fydd yn y diwedd o fudd i'n dysgwyr ni yma yng Nghymru.

# KEY MESSAGES FOR OUR CAMPAIGN

**Below you will find a list of key messages for our campaign. Feel free to use these to create your own content about the platform, or to answer any questions you get.**

- Educators Wales is a free service funded by Welsh Government and developed by the Education Workforce Council to promote careers in the education professions in Wales.
- The Welsh Government launched the Educators Wales portal in 2021 as a free to use, Wales-wide job matching, training and career development site for the education and training sector.
- Educators Wales is a one-stop-shop for finding job opportunities and getting information on career options or professional development in the education and training sector.
- Educators Wales currently caters for schools of all age ranges, FE colleges, providers of work-based learning, youth work service providers and adult learning providers.
- There are a wide range of job roles available with education and training providers in Wales on the Educators Wales website.
- A career in education or training can be fulfilling and rewarding, offering excellent opportunities for personal growth and development.
- Education and training providers can advertise their job vacancies and invite applications via the portal or direct them to apply via their own websites, as well as browse talent pools to identify suitable candidates and invite them for interview.
- Educators Wales aims to help providers find the staff they need in an effective way whilst saving on recruitment costs, which will also ultimately benefit our learners here in Wales.

# **Asedau i'w rhannu**

# Assets to share

# ASEDAU I'W RHANNU

**Er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o Addysgwyr Cymru, rydyn ni wedi creu ffilmiau byr, delweddau brand ac wedi ysgrifennu cylchlythyr a chopi gwe i chi eu rhannu ar eich sianeli digidol a chymdeithasol eich hun.**

Gweler isod ddolen i lawrlwytho'r holl asedau creadigol. Gellir defnyddio'r rhain ar unrhyw un o'ch platfformau yn organig (h.y. nid yw'r hawliau defnyddio yn caniatáu i chi hyrwyddo cynnwys am dâl).

Maen nhw wedi cael eu darparu mewn sawl maint i wneud yn siŵr bod gennych chi'r opsiwn cywir ar gyfer y sianel rydych chi'n dewis rhannu arni.

- **Ffilmiau dwyieithog** (llai na 30 eiliad o hyd) yn egluro manteision gwasanaeth Addysgwyr Cymru. (Mae'r rhain ar gael mewn gwahanol feintiau ar gyfer gwahanol lwyfannau cymdeithasol).
- **Lluniau brand dwyieithog** yn dangos y gwahanol rolau ym maes addysg gan y rheini sydd eisoes yn gweithio yn y sector. (Mae'r rhain ar gael mewn gwahanol feintiau ar gyfer gwahanol lwyfannau cymdeithasol.
- **Copi gwe dwyieithog** yn cyflwyno gwasanaeth Addysgwyr Cymru ar gyfer eich gwefan eich hun.
- **Copi cylchlythyr dwyieithog** yn cyflwyno gwasanaeth Addysgwyr Cymru ar gyfer eich cylchlythyr (neu ar gyfer eDM).
- **Ffilm ddwyieithog wedi'i hanelu at raddedigion** a allai fod yn awyddus i archwilio gyrfa mewn addysg.
- **Ffilm ddwyieithog wedi'i hanelu at bobl sydd wedi ymddeol** yn ddiweddar ac a allai fod yn awyddus i ddychwelyd i'r sector.
- **Ffilm ddwyieithog wedi'i hanelu at unigolion medrus** a allai fod â diddordeb mewn dilyn gyrfa mewn addysg.

Cliciwch yma i gael mynediad at asedau'r pecyn cymorth

# ASSETS TO SHARE

**To help raise awareness of Educators Wales we have created some short films, branded images and written some newsletter and web copy for you to share on your own digital and social channels.**

Please find below a link to download all the creative assets. These can be used on any of your platforms organically (i.e. the usage rights do not allow paid amplification).

They have been supplied in multiple sizes to ensure you have the right option for the channel you chose to share on.

- **Bilingual films** (under 30 seconds long) explaining the benefits of the Educators Wales service. (These are available in different sizes for different social platforms).
- **Bilingual branded images** showcasing the different roles in education from those already working in the sector. (These are available in different sizes for different social platforms.
- **Bilingual web copy** introducing the Educators Wales service for your own website.
- **Bilingual newsletter** copy introducing the Educators Wales service for your newsletter (or for an eDM).
- **Bilingual film aimed at graduates** who might be keen to explore a career in education.
- **Bilingual film aimed at recent retirees** who might be keen to return to the sector.
- **Bilingual film aimed at skilled trades** who might be interested in pursuing a career in education.

Click here to access the toolkit assets

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cysylltu

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw un o'r asedau neu am eu defnyddio, cysylltwch â
**Chodges@golleyslater.co.uk**;
**ethorne@golleyslater.co.uk**;
**gwybodaeth@addysgwyr.cymru.**

## Contact

Any questions about any of the assets or their usage, please contact
**Chodges@golleyslater.co.uk**;
**ethorne@golleyslater.co.uk**;
**information@educators.wales.**